**YSGOL Y SANTES FAIR, BRYMBO**
**YSGOL GYMORTHEDIG YR EGLWYS YNG NGHYMRU**
**POLISI DERBYN DISGYBLION 2010-2011**

***Dyddiadau ymgynghori***

*1 Medi 2009 – 15 Ebrill 2010*
*Ar gyfer blwyddyn ysgol 2011-2012*

Mae Ysgol Gymorthedig Yr Eglwys yng Nghymru Y Santes Fair Brymbo yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Fel Ysgol Gymorthedig yr Eglwys yng Nghymru, Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion. Mae ffurflenni derbyn i'w cael o'r Ysgol. Caiff amserlen dderbyniadau'r Awdurdod Addysg Lleol ei dilyn ar gyfer dosbarthu, ystyried a dychwelyd y ffurflenni hyn.

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn gofyn bod AALl a Chyrff Llywodraethol yn derbyn disgyblion hyd at nifer y derbyniadau oni bai y byddai gwneud hynny'n groes i gadw natur neilltuol yr Ysgol.

Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr mewn achosion lle caiff rheswm digonol ei roi. Mae'r rhain yn cynnwys pan fydd unig riant wedi bod yn sâl ers cryn amser, neu deulu newydd symud i'r cylch, neu'n dychwelyd oddi tramor ond bod ceisiadau'n cael eu derbyn cyn i leoedd gael eu cynnig.

**Bydd rhieni'n cael hysbysiad ysgrifenedig o holl geisiadau derbyniad**

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Feithrinfa, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair oed – hynny yw, mae modd derbyn ym mis Medi unrhyw blentyn sy'n dair oed erbyn 31 Awst. Mae'r Feithrinfa'n ddarpariaeth statudol ond nid yw'n addysg orfodol. **Nid yw** derbyniad i'r Feithrinfa'n sicrhau lle yn y Dosbarth Derbyn; os oes gan blentyn le yn ein Meithrinfa rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol ar gyfer derbyn i'r Dosbarth Derbyn o fewn cyfnod penodedig y cylch derbyniadau blynyddol.

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump oed, h.y. mae modd derbyn ym mis Medi unrhyw blentyn sy'n cyrraedd pedair oed erbyn 31 Awst.

Mae "plant dan ofal" yn flaenoriaeth. Yn achos gordanysgrifio bydd y llywodraethwyr yn derbyn disgyblion sy'n ateb y gofynion cyfreithiol a deddfwriaeth gyfredol orau.

Bydd plant o gymuned Sipsiwn crwydrol neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg Sipsiwn-Teithwyr'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, nac yn erbyn ceiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

**Meini Prawf Derbyn**

Os oes yna ordanysgrifio i'r ysgol, mae'r Llywodraethwyr wedi cytuno y bydd y meini prawf canlynol yn cael eu cymhwyso yn y drefn isod i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

a) Plant dan ofal a fedyddiwyd yn aelodau'r Eglwys yng Nghymru
b) Plant dan ofal o Ffyddau eraill
c) Disgyblion sydd â chyfeiriad eu cartref o fewn terfynau plwyf eglwysig Ysgol y Santes Fair Brymbo* gan roi blaenoriaeth uwch i ddisgyblion sydd hefyd yn cyrraedd maen prawf (d) isod
d) Disgyblion gyda brawd neu chwaer fydd yn dal i fod yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf, h.y. heb fod ym Mlwyddyn 6; gwelwch ddiffiniad brawd neu chwaer isod
e) Disgyblion y mae eu rhieni (gwelwch y diffiniad) ynghlwm wrth Eglwys y Santes Fair Brymbo.
f) Disgyblion y mae eu rhieni (gwelwch y diffiniad) ynghlwm wrth Eglwys Anglicanaidd arall a hon yw'r Ysgol Gymorthedig agosaf atynt.
g) Disgyblion y mae eu rhieni (gwelwch y diffiniad) yn aelodau gweithredol o enwad Cristionogol heblaw Anglicanaidd a hon yw'r Ysgol Gymorthedig agosaf atynt.
h) Disgyblion y mae eu rhieni'n aelodau gweithredol o ffydd arall ac sydd hefyd yn mynegi dymuniad am addysg Ysgol Eglwysig.
i) Disgyblion eraill.

Gall amgylchiadau meddygol eithriadol (gyda chefnogaeth tystiolaeth feddygol) or-redeg yr uchod.

Sylwch y bydd unrhyw blant gyda datganiad anghenion addysgol arbennig sy'n enwi'r ysgol yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio.

Ar gyfer meini prawf e) -h) bydd y Llywodraethwyr yn gofyn am wybodaeth ynghylch amlder mynychu gwasanaethau a chyfranogiad yng ngwaith yr eglwys ac yn ceisio cadarnhau'r manylion hyn gyda'r offeiriad neu weinidog lleol.

O fewn pob categori, mae'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth uwch. Mae Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i fesur y pellter llinell syth rhwng cartref ac ysgol yn gywir. Os yw'r pellter yn union gyfartal – er enghraifft, mewn bloc o fflatiau gydag un drws blaen – mi fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng llawr a llawr.

## Diffiniadau

### Diffinio Rhieni

Mae rhieni'n cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn yn ôl Deddf Plant 1989. Lle bo cyfrifoldeb dros blentyn 'ar y cyd', y farn yw mai pwy bynnag sy'n derbyn y Budd-dal Plant yw'r un sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais a dyma'r cyfeiriad fydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion derbyn.

### Diffinio Brawd neu Chwaer

O ran ceisiadau sy'n cael eu gwneud yn y cylch mynediad arferol brawd neu chwaer berthnasol yw plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer neu sy'n blentyn maeth yn byw yn yr un uned deuluol ar yr un aelwyd ac yn yr un cyfeiriad sy'n mynychu'r ysgol a ffafriwyd yn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynychu'r ysgol a ffafriwyd yn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd hefyd heb ystyried preswylfa.

Ni fydd plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, er enghraifft cefndryd, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

### 'Yn Byw Yn' a 'Chyfeiriad Cartref'

Y Cyfeiriad Cartref fydd y cyfeiriad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth gysylltiedig â'r fan lle caiff "Budd-dal Plant" ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth o'r cyfeiriad cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd rhanedig) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid darparu tystiolaeth o'r Cyfeiriad Cartref i'r ysgol i gadarnhau'r cyfeiriad sy'n cael ei ddefnyddio ar y ffurflen gais. Cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu'r canlynol:

i) llythyr twrnai yn cadarnhau bod Contractau wedi cael eu cyfnewid ar gyfer prynu eiddo; neu
ii) copi o'r Cytundeb Rhent presennol, wedi ei lofnodi gan y Tenant a'r Landlord, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél PRESENNOL y lluoedd arfog – hynny yw, rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd - llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu gwasanaeth oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor neu GCHQ.

### Gefeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog

Pan fydd y Corff Llywodraethol yn ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill am un lle sydd ar ôl, bydd y teulu'n cael cynnig y lle ac yn gallu penderfynu (a) a ydynt yn dewis ei dderbyn ar gyfer un o'r plant a ddewisant neu (b) a ydynt yn gwrthod y lle ac iddo gael ei gynnig i'r teulu nesaf ar y rhestr ar ôl yr efeilliaid / tripledi / genedigaethau lluosog. Sylwch na fyddai'r plant lluosog yn cael blaenoriaeth derbyniad heblaw wrth gael eu hystyried fel cyswllt brawd neu chwaer

ar ôl i'r teulu dderbyn y lle sy'n cael ei gynnig i un o'r efeilliaid / tripledi / genedigaethau lluosog.

Bydd rhestr aros yn cael ei chynnal os digwydd gordanysgrifio i'r ysgol. Yn dilyn neilltuo lleoedd yn ystod y cylch derbyniadau arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 31 Awst yn y flwyddyn ysgol berthnasol i'w cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros yn gweithredu byddant yn cael eu clustnodi i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod.

Os ydych yn gwneud cais dan feini prawf e)-h) uchod mae modd cael **Ffurflen Wybodaeth Atodol** *(Supplementary Information Form, SIF)* yn uniongyrchol o'r ysgol. Mae'r SIF i gael ei dychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad sy'n cael ei bennu gan yr ysgol bob blwyddyn. Nid yw'r SIF yn unig yn ffurfio cais; rhaid i rieni hefyd lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin.

## Apeliadau derbyn

Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ond nid oes gan rieni hawl i apelio dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddo i gael lle. Nid yw derbyniad i'r dosbarth meithrin yn gwarantu derbyniad i'r ysgol.

Os na fyddwn yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio er gwaeth ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon ar benderfyniad y Corff Llywodraethol i beidio â derbyn plentyn apelio. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid anfon yr apêl at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Banel Annibynnol apeliadau derbyn, yn cael ei weinyddu gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn ysgolion. Yna bydd y Panel Apeliadau'n cyfarfod i ystyried holl apeliadau rhieni a wrthodwyd lle yn ein hysgol. Mae'r penderfyniad hwn yn rhwymo pawb dan sylw.

Ysgrifennwyd y polisi hwn i gydymffurfio â'r dogfennau canlynol:

- Cod Statudol Derbyniadau Ysgol Dogfen Rhif: 002/2009, Gorffennaf 2009
- Deddfau Anffafrio'r Anabl 1995 a 2005
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Deddf Diwygio Addysg 1988
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 – hawl dewis y rhieni (adran 86(1)) a'r hawl i apelio
- Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.
- Deddf Addysg 2005 – blaenoriaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44) - gwaharddiad ar gyfweld rhieni a phlant.
- Deddf Addysg 2002 – diddymu'r hawl i gyfyngu ar dderbyniadau ar sail cyfran y plant o'r tu allan i'r grŵp ffydd
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Esgobaeth Llanelwy'n cyhoeddi canllawiau anstatudol hefyd.

## Adolygiad

Yn unol â Chynllun Datblygu'r Ysgol, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd neu'n gynt yng ngoleuni unrhyw newid deddfwriaeth neu newid dan amgylchiadau lleol.

# FFURFLEN GWYBODAETH ATODOL

## Ar gyfer cais i Ysgol y Santes Fair
## Ysgol gymorthedig Yr Eglwys yng Nghymru

Dylai rhieni lenwi'r ffurflen hon **dim mwy na thri mis cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** a'i rhoi i'ch gweinidog, gydag **amlen â stamp gyda chyfeiriad yr ysgol arni**. Dylai'r **Gweinidog** ei dychwelyd **yn uniongyrchol** i'r ysgol. Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais dan feini prawf eglwys sydd angen ei llenwi.

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad y plentyn: | |
| Dyddiad Geni: | |

Rhowch fanylion y prif addoldy a fynychwyd yn y tair blynedd diwethaf. (Os ydych yn dymuno cefnogaeth mwy nag un gweinidog, rhowch y manylion ar ddarn o bapur ar wahân).

| | |
|---|---|
| Enw'r Eglwys:<br><br>Enwad yr Eglwys: | |
| Enw a chyfeiriad llawn y Gweinidog (gan gynnwys y cod post): | |
| Rhif ffôn y Gweinidog: | |
| Pa aelodau'r teulu sy'n mynychu gwasanaethau?: | Mam<br>Tad<br>Plant / Plentyn |
| Os nad yw rhiant yn mynd gyda'ch plant ydyn nhw'n mynychu gydag oedolion eraill? Os ydynt, nodwch bwy | Ydynt<br>Nac ydynt |
| Ers faint ydych chi wedi mynychu'n rheolaidd? | Llai na 6 mis<br>Rhwng 6 mis a blwyddyn<br>Rhwng blwyddyn a 18 mis<br>Mwy na 2 flynedd<br>Mwy na 3 blynedd |
| Pa mor aml ydych chi wedi mynychu fel arfer yn ystod y cyfnod hwn? | Unwaith yr wythnos<br>Unwaith bob pythefnos<br>Gwasanaeth misol / teulu |

| | |
|---|---|
| A fydd y plentyn sy'n destun y cais hwn yn mynychu Ysgol Sul neu Eglwys Ieuenctid neu debyg? | Ydi<br>Nac ydi |
| Rhestrwch holl agweddau ar eich cysylltiad â bywyd a gwaith eich eglwys (heblaw addoli'r Sul). | |

| | |
|---|---|
| Llofnod y rhiant: | Dyddiad |

**At y Gweinidog: Byddwch gystal â chadarnhau'r manylion uchod. Ychwanegwch unrhyw sylwadau y meddyliwch all fod yn ddefnyddiol i'r ysgol ddeall ymroddiad Cristionogol y teulu hwn. Yna anfonwch y ffurflen yn uniongyrchol i'r ysgol yn yr amlen a ddarparwyd gan y rhieni. Diolch yn fawr.**

| | |
|---|---|
| | |
| Llofnod y Gweinidog: | Dyddiad: |